



Iau, 10 Tachwedd 2022 – 7.30yh  
Neuadd Ty'n y Porth, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 10 Tachwedd 2022** am 7.30 yn Neuadd Ty'n y Porth, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Archwiliad llawn o'r Cyngor
5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Materion Cynllunio
9. Materion eraill

**Presennol:**

Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eryl Owain (Is Gadeirydd)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

**Ymddiheuriadau:**

Ceri Phillips  
Eifion Davies

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

**Datgan diddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Minutes of a meeting held on **Thursday 10 November 2022** at 7.30 at Neuadd Ty'n y Porth

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interests
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. Full audit of the Council
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Planning Applications
9. Any other business

**Present:**

Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eryl Owain (Deputy Chair)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Apologies:**

Ceri Phillips  
Eifion Davies

The meeting was opened by the chairperson.

**Declaration of interests**

There were no declarations

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **08 Medi 2022** fel rhai cywir, Owen Davis yn cynnig a Dylan Davies yn eilio.

## Archwiliad llawn o'r Cyngor:

Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned i fod i gynnal archwiliad llawn am y tro cyntaf eleni. Roedd yr archwiliad helaeth iawn wedi'i ohirio am i Archwilio Cymru fethu ag anfon hysbysiad archwilio i'r Cyngor tan 30 Medi.

Dyweddodd y Clerc ei fod wedi cwblhau'r Ffurflen Flynyddol, cysoniad banc, esboniad o amrywiannau, Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac arddangos yr Hysbysiad Archwilio.

Nodwyd bod y gweithdrefnau canlynol eisoes ar waith:

- Dydy'r Cyngor Cymuned ddim wedi defnyddio sieciau ers mis Awst 2021
- Gwneir yr holl daliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol neu drosglwyddiad banc
- Bydd y Clerc yn parhau i dalu anfonebau drwy drosglwyddo banc
- Bydd y Clerc yn parhau i wirio unrhyw anfonebau annisgwyl gyda Chynghorydd

Cytunwyd ar y canlynol:

- Bydd J Llywelyn Hughes, Llanrwst yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau mewnol o'r Cyngor ac wedi cynnal archwiliad mewnol ar gyfer 2021-22 gan gadarnhau fod popeth mewn trefn
- Pan fydd y Clerc eisiau gosod Debyd Uniongyrchol newydd, bydd yn anfon e-bost at bob Cynghorydd yn rhoi 7 diwrnod iddyn nhw ymateb
- Llofnodwyd contract cyflogaeth y Clerc gan y Clerc a'r Cadeirydd.
- Cafodd ffurflen Archwilio Flynyddol 2021-22 ei llofnodi gan y Clerc, fel Swyddog Cyllid Cyfrifol, a gan y Cadeirydd.

**Gadawodd y Clerc yr ystafell tra trafodwyd yr eitem ganlynol:** Cytunwyd i wneud taliad ychwanegol o £250 i'r Clerc o ystyried y gwaith sylweddol sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad llawn.

## Materion yn codi:

**Toiledau Cyhoeddus:** Adroddwyd bod £185 wedi'i dderbyn gan EON fel iawndal am yr amser a gymerwyd i

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **08 September 2022** meeting were accepted as a true record, proposed by Owen Davis and seconded by Dylan Davies.

## Full audit of the Council:

It was reported that the Community Council was due a full audit for the first time this year. The very extensive audit had been delayed because Audit Wales failed to send an audit notice to the council until 30 September.

The Clerk reported that he had completed the Annual Return form, bank reconciliation, explanation of variances, Annual Governance Statement and displayed the Audit Notice.

It was noted that the following procedures were already in place:

- The Council stopped using cheques in August 2021
- All payments are made by Direct Debit or bank transfer
- The Clerk will continue to pay invoices by bank transfer
- The Clerk will continue to check any unexpected invoices with a Councillor

The following was agreed:

- J Llywelyn Hughes, Llanrwst will continue to be used for internal audits of the Council and had carried out an internal audit for 2021-22 confirming that everything was in order
- When the Clerk wants to setup a new Direct Debit, he will send an email to all Councillors giving them 7 days to respond
- The Clerk's contract of employment was signed by both the Clerk and the Chairperson.
- The 2021-22 Annual Audit Return was signed by the Clerk, as Responsible Financial Officer, and by the Chairperson.

**The Clerk left the room whilst the following item was discussed:** It was agreed to make an additional payment of £250 to the Clerk to compensate him for the significant work required for the full audit.

## Matters arising:

**Public Toilets:** It was reported that £185 had been received from EON as compensation for the time taken

gofrestru'r paneli solar. Adroddwyd problemau gyda drws y toiled a'r llawr. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach.

**Wal Mynwent Arwelfa:** Cafwyd ymateb cadarnhaol gan sawl contractwr. Penderfynwyd cysylltu â mwy o gontractwyr. Mae'n bosib y bydd cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu ym mis Rhagfyr i drafod hyn.

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Penderfynwyd cysylltu â Llywodraeth Cymru eto a'r Cyngor Sir.

**Tyddyn Gethin:** Roedd yr adran ffyrdd wedi bod i'r safle ac yn amharod i osod drych oherwydd gallai gyrwyr gamddehongli'r hyn maen nhw'n ei weld. Dywedodd y Cyngor Sir y bydd yn helpu, y flwyddyn nesaf, pan fydd y terfyn cyflymder yn cael ei newid i 20mya. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am ymweliad safle.

**Gorlan:** Adroddwyd bod Awdurdod y Parc wedi cwrdd â'r perchennog a'u bod yn y broses o benderfynu ar y camau nesaf.

**WiFi Cymunedol:** Adroddwyd bod y prosiect yn aros am benderfyniad am grant.

## Gohebiaeth

**Treth twristiaid:** Adroddwyd bod aelod o'r gymuned wedi gofyn i'r Cyngor ymateb i ymgynghoriad gan y Llywodraeth am "Ardoll Ymwelwyr i Gymru" yn teimlo y dylai cymunedau lleol elwa'n uniongyrchol o'r ardoll. Penderfynwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r ardoll ond yn teimlo y dylai fod o fudd i gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan dwristiaeth, yn uniongyrchol ac yn gymesur.

## Adroddiad Cyllidol

Nodwyd bod £6,566.03 yn y banc.

**Talwyd y biliau canlynol:** Plastecowood (Byrddau picnic) £1,902, Gordon Jones (Concrit - byrddau picnic) £1,560, Clerc (cyflog Mai-Hyd) £1,282.05, Gari Wyn Morris (llwybrau cyhoeddus) £1,200, Sir Conwy (Etholiadau Lleol: Cwm £847.50 // Penmachno £135) £982.50, J Llywelyn Hughes (archwiliad) £210, Clerc (defnydd cyfrifiadur) £25, HSBC £24.50, Papur Toiled £22.90, E.ON (Toiledau cyhoeddus) £20, 123-reg (cbm.cymru) £17.99, Google £9.20, Connect Telecom £2.08

**Talwyd y canlynol i mewn:** Sir Conwy (llwybrau cyhoeddus) £1,530, E.ON (iawndal) £185, Paypal (Gwiriad diogelwch) £0.01, Npower (iawndal) £50

to register the solar panels. Problems were reported with the toilet door and the floor. It was decided to investigate further.

**Arwelfa Cemetery Wall:** A positive response had been received from several contractors. It was decided to contact more contractors. An extra meeting might be arranged in December to discuss this.

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was decided to contact the Welsh Government again and the County Council.

**Tyddyn Gethin:** The highways department had been to the site and were reluctant to affix a mirror because drivers might misinterpret what they see. The County Council reported that, next year, when the speed limit is changed to 20mph, it will help. It was decided to ask the County Council for a site visit.

**Gorlan:** It was reported that the Park Authority had met the owner and are in the process of deciding on next steps.

**Community WiFi:** It was reported that the project is awaiting a decision about a grant.

## Correspondence

**Tourist tax:** It was reported that a member of the community had asked the Council to respond to a Government Consultation about "A Visitor Levy for Wales" feeling that local communities should benefit directly from the levy. It was decided to respond to the consultation stating that the Community Council supports the levy but feels that it should directly and proportionately benefit communities affected by tourism.

## Financial Report

It was noted that there was £6,566.03 in the bank.

**The following bills were paid:** Plastecowood (Picnic tables) £1,902, Gordon Jones (Concrete - picnic tables) £1,560, Clerk (May-Oct salary) £1,282.05, Gari Wyn Morris (public footpaths) £1,200, Conwy County (Local Elections: Cwm £847.50 // Penmachno £135) £982.50, J Llywelyn Hughes (audit) £210, Clerk (computer use) £25, HSBC £24.50, Toilet Paper £22.90, E.ON (Public toilets) £20, 123-reg (cbm.cymru) £17.99, Google £9.20, Connect Telecom £2.08

**The following was paid in:** Conwy County (public footpaths) £1,530, E.ON (compensation) £185, PayPal (Security check) £0.01, Npower (compensation) £50

Nodwyd bod taliad grant ac ad-daliad TAW i fod i gael ei dalu i mewn am y byrddau picnic: £3,462

It was noted that a grant payment and VAT repayment were due to be paid-in for the picnic tables: £3,462

## Materion Cynllunio

Doedd yna ddim ceisiadau cynllunio newydd.

Adroddwyd am y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â Gwesty Machno a Sŵch. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

## Planning

There were no new planning applications.

The latest developments were reported regarding the Machno Inn and Sŵch. A further update would be provided at the next meeting.

## Materion eraill

**Bont Newydd:** Adroddwyd fod coeden yn tyfu trwy'r bont.

## Other matters

**Bont Newydd:** It was reported that a tree is growing through the bridge.

**Llwybr Cyhoeddus 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** Adroddwyd bod dŵr yn llifo i lawr y llwybr gan ei wneud yn anniogel. Bydd lluniau / fideos yn cael eu tynnu mewn tywydd gwlyb.

**Public Footpath 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** It was reported that water is flowing down the path making it unsafe. Photos / videos will be taken in wet weather.

**Biniau Baw Cŵn:** Adroddwyd bod diffyg biniau dal yn broblem. Ni fydd y Cyngor Sir yn gosod unrhyw finiau ychwanegol. Penderfynwyd darganfod a fyddai'r Cyngor Sir yn gwagio biniau pe bai'r Cyngor Cymuned yn eu prynu.

**Dog poo bins:** It was reported that the lack of bins is still a problem. The County Council policy is not to install any additional bins. It was decided to find out if the County Council would empty bins if the Community Council were to purchase them.

**Tŷ Mawr Wybrnant:** Mynegwyd siom fod yr adeilad yn dal ar gau. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a gofyn iddynt agor Tŷ Mawr yn rheolaidd fel nad oes rhaid i ymwelwyr drefnu eu hymweliad o flaen llaw.

**Tŷ Mawr Wybrnant:** Disappointment was expressed that the building is still closed. It was decided to write to the National Trust and ask them to open Tŷ Mawr regularly so that visitors do not have to arrange their visit in advance.

## Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 10 Ionawr 2023 yn y Shiloh.

## Next meeting

The next meeting will be held on Tuesday 10 January 2023 at the Shiloh.